



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol – **Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1390A2019-20



Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â'r swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n briodol, yr archwilydd penodedig yw'r trydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Cynnwys

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich datganiadau ariannol. Mae rhai materion i'w dwyn i'ch sylw cyn bod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r datganiadau ariannol.

Adroddiad cryno

Cyflwyniad	4
Statws yr archwiliad	4
Adroddiad archwilio arfaethedig	4
Materion arwyddocaol sy'n codi o'r archwiliad	5
Annibyniaeth a gwrthrychedd	6

Atodiadau

Atodiad 1 – Llythyr Sylwadau Terfynol	7
Atodiad 2 – Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	10
Atodiad 3 – Crynodeb o gywiriadau a diwygiadau i'r datganiadau ariannol drafft	14

Adroddiad cryno

Cyflwyniad

- 1 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am ddarparu barn ar ôl ystyried p'un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (yr Awdurdod) ar 31 Mawrth 2019 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw.
- 2 Nid ydym yn ceisio cael sicrwydd absoliwt bod y datganiadau ariannol wedi'u mynegi'n gywir ond rydym yn mabwysiadu cysyniad perthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rydym yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn eich datganiadau ariannol, hynny yw, y rhai hynny a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon.
- 3 Y lefel feintiol yr ydym yn eu defnyddio fel sail i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol i'r Awdurdod yw £137,000. Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd bennu p'un a fernir bod eitem yn berthnasol ai peidio.
- 4 Mae Safon Ryngwladol ar Archwilio (ISA) 260 yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddwyn rhai materion sy'n deillio o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol i sylw'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu corff mewn da bryd i'w gwneud yn bosibl cymryd camau gweithredu priodol.
- 5 Mae'r adroddiad hwn yn nodi er ystyriaeth y materion sy'n deillio o'r archwiliad o ddatganiadau ariannol yr Awdurdod ar gyfer 2018-2019 y mae'n ofynnol cyflwyno adroddiad arnynt o dan ISA 260.

Statws yr archwiliad

- 6 Fe gawsom ni'r datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 ar 31 Mai 2019 yn unol â'r terfyn amser statudol cyfredol.
- 7 Rydym bellach wedi cwblhau'r gwaith archwilio i raddau helaeth yn amodol ar gwblhau ein hadolygiad terfynol.
- 8 Rydym yn cyflwyno adroddiad i chi ar y materion mwyaf arwyddocaol sy'n codi o'r archwiliad, y credwn y dylech eu hystyried cyn cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Mae'r tîm archwilio eisoes wedi trafod y materion hyn gyda Swyddog Adran 151 yr Awdurdod a'i dîm.

Adroddiad archwilio arfaethedig

- 9 Bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol unwaith y byddwch wedi darparu Llythyr Sylwadau ar ein cyfer sy'n seiliedig ar yr un a nodir yn [Atodiad 1](#).
- 10 Mae'r adroddiad archwilio arfaethedig wedi'i gynnwys yn [Atodiad 2](#).

Materion arwyddocaol sy'n codi o'r archwiliad

Camddatganiadau nas cywirwyd

- 11 Nid oes camddatganiadau wedi'u nodi yn y datganiadau ariannol sy'n dal heb eu cywiro.

Camddatganiadau a gywirwyd

- 12 Mae yna rai camddatganiadau a gywirwyd gan y rheolwyr, ond y dylid eu dwyn i'ch sylw yn ein tyb ni gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol. Nodir y rhain, ynghyd ag esboniadau, yn [Atodiad 3](#).

Materion arwyddocaol eraill sy'n codi o'r archwiliad

- 13 Yn ystod yr archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion ansoddol a meintiol sy'n berthnasol i'r cyfrifon ac yn cyflwyno adroddiad i chi ar unrhyw faterion arwyddocaol sy'n codi.
- **Nid oes gennym bryderon arwyddocaol ynglŷn ag agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu a'ch proses o gyflwyno adroddiadau ariannol.**
 - **Ni ddaethom ar draws unrhyw anawsterau arwyddocaol yn ystod yr archwiliad.** Ni chyfyngwyd arnom yn ein gwaith a chawsom yr wybodaeth yr oedd ei hangen arnom i gwblhau ein harchwiliad.
 - **Mae un mater arwyddocaol y cafwyd trafodaeth ac y gohebwyd ynglŷn ag ef gyda'r rheolwyr y mae angen i ni eich hysbysu amdano.**

Roedd un mater arwyddocaol y cafwyd trafodaeth ac y gohebwyd ynglŷn ag ef gyda'r rheolwyr y mae angen i ni eich hysbysu amdano.

Ym mis Rhagfyr 2018, dyfarnodd y Llys Apêl yn erbyn y Llywodraeth, gan ddatgan bod y newidiadau i gynlluniau pensiwn yn gwahaniaethu yn erbyn grŵp o swyddogion cyhoeddus ar sail oedran. Roedd y newidiadau'n ymwneud â symud o sail cyflog terfynol i sail cyfartaledd ar hyd gyrfa. Ar 27 Mehefin 2019, fe wrthododd y Goruchaf Lys gais y Llywodraeth am ganiatâd i apelio yn erbyn y penderfyniad. Cyfeirir at y gyfres hon o ddigwyddiadau fel dyfarniad McCloud.

Mae cost darparu rhwymedi i gyflogeion yr effeithir arnynt yn debygol o fod yn sylweddol. Rydym wedi dod i'r casgliad bod dyfarniad McCloud yn esgor ar gost a rhwymedigaeth gwasanaeth a roddwyd o fewn cwrdd cyfrifyddu ar gyfer pensiynau mewn awdurdodau lleol y dylid cyfrifyddu amdanynt fel rhwymedigaeth gynyddol lle gellir llunio amcangyfrif rhesymol.

Mae'r Awdurdod wedi amcangyfrif rhwymedigaeth pensiwn ychwanegol o £528,000 yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan Adran Actwari'r Llywodraeth. Gan bod hyn yn uwch na throthwy perthnasedd yr Awdurdod ar gyfer y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2018-19, mae'r Awdurdod wedi gwneud yr addasiad hwn y cyfeirir ato yn **Atodiad 3** o'r adroddiad hwn.

- **Nid oes unrhyw faterion eraill sy'n arwyddocaol i oruchwyllo'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt.**
- **Ni nodwyd gwendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol.**
- **Nid oes unrhyw faterion eraill y mae'n ofynnol yn benodol eu bod, yn ôl safonau archwilio, yn cael eu cyfleu i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu.**

Annibyniaeth a gwrthrychedd

- 14 Fel rhan o'r broses gwblhau, mae'n ofynnol i ni roi sylwadau i chi ynghylch ein hannibyniaeth.
- 15 Rydym wedi cydymffurfio â safonau moesegol ac yn ein barn broffesiynol ni, rydym yn annibynnol ac ni chaiff ein gwrthrychedd ei beryglu. Nid oes unrhyw gydberthnasau rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r Awdurdod sy'n effeithio ar ein gwrthrychedd a'n hannibyniaeth yn ein barn ni.

Atodiad 1

Llythyr Sylwadau Terfynol

[Pennawd llythyr yr Awdurdod]

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

Xx Gorffennaf 2019

Sylwadau sy'n ymwneud â datganiadau ariannol 2018-19

Darperir y llythyr hwn mewn perthynas â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 at ddiben mynegi barn ynglŷn â pha mor wir a theg ydynt ac i ba raddau y maent wedi'u paratoi'n briodol.

Rydym yn cadarnhau hyd y gwyddom a hyd y credwn, ar ôl cynnal ymchwiliadau a oedd yn ddigonol yn ein barn ni, y gallwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

Sylwadau rheolwyr

Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau o ran y canlynol:

- paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018-19; yn arbennig mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â'r gofynion hynny; a hefyd
- cynllunio, gweithredu, cynnal ac adolygu trefniadau rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau.

Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi rhoi'r canlynol i chi:

- Mynediad llawn at y canlynol:
 - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r broses o baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
 - gwybodaeth ychwanegol yr ydych wedi gofyn amdani gennym ni at ddiben yr archwiliad; a

- mynediad rhydd at staff yr oedd angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt, yn eich barn chi.
- Canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gall y datganiadau ariannol fod wedi eu camddatgan mewn modd perthnasol o ganlyniad i dwyll.
- Ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll tybiedig yr ydym yn ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac yn ymwneud â:
 - rheolwyr;
 - cyflogeion sydd â rolau pwysig yng nghyd-destun rheolaeth fewnol; neu
 - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.
- Ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll tybiedig, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a roddwyd i ni gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.
- Yr hyn a wyddom am yr holl achosion hysbys neu achosion tybiedig o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.
- Pwy yw'r holl bartïon cysylltiedig a manylion holl gydberthnasau a thrafodion y partïon cysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt.

Sylwadau ar y datganiadau ariannol

Cofnodwyd pob trafodiad, ased a rhwymedigaeth yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rhai a fesurwyd ar sail gwerth teg, yn rhesymol.

Cyfrifwyd yn briodol am gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig ac fe'u datgelwyd yn briodol.

Addaswyd ar gyfer pob digwyddiad neu datgelwyd pob digwyddiad a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad adrodd y mae angen addasu ar ei gyfer neu ei ddatgelu.

Datgelwyd pob achos gwirioneddol neu bosibl hysbys o ymgyfreitha a hawliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol i'r archwilydd, a chyfrifwyd amdanynt ac fe'u datgelwyd yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol.

Sylwadau gan yr Awdurdod

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod gyda ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan yr Awdurdod ar **xx Gorffennaf** 2019.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr wybodaeth honno wedi'i throsglwyddo i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

Llofnodwyd gan:

Llofnodwyd gan:

Richard Griffiths

Swyddog Adran 151

Dyddiad:

Cadeirydd yr Awdurdod Parc
Cenedlaethol

Dyddiad:

Atodiad 2

Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Barn

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cynnwys y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod, a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiâu cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018-19 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ar 31 Mawrth 2019 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018-19.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISA (UK)). Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol. Rwy'n annibynnol ar yr Awdurdod yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU yn ei gwneud yn ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- nid yw'r defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw'r swyddog ariannol cyfrifol wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Awdurdod i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Gwybodaeth arall

Y swyddog ariannol cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn y datganiad cyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn y datganiad cyfrifon, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn ddiweddarach yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall er mwyn nodi anghysonderau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n berthnasol anghywir ar sail yr wybodaeth a gefais wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau perthnasol ymddangosiadol, ystyriaf y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad.

Adroddiad ar ofynion eraill

Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Naratif wedi ei baratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018-19; ac
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am yr Awdurdod a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon a nodir ar dudalen 59, y swyddog ariannol cyfrifol sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun cywir a theg, ac am ba bynnag reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog ariannol cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu'r Awdurdod i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thbyr nad yw'n briodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Anthony J Barrett
Tros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru
30 Gorffennaf 2019

24 Heol y Gadeirlan
Cardiff
CF11 9LJ

Atodiad 3

Crynodeb o gywiriadau a diwygiadau i'r datganiadau ariannol drafft

Yn ystod ein harchwiliad fe ganfuom y camddatganiadau canlynol sydd wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr, ond y dylid eu dwyn i'ch sylw yn ein tyb ni oherwydd eu perthnasedd i'ch cyfrifoldebau chi am y broses o gyflwyno adroddiadau ariannol.

Arddangosyn 1: crynodeb o gywiriadau a diwygiadau i'r datganiadau ariannol drafft

Natur a gwerth y cywiriad

- Ym mis Rhagfyr 2018, dyfarnodd y Llys Apêl yn erbyn y Llywodraeth, gan ddatgan bod y newidiadau i gynlluniau pensiwn yn gwahaniaethu yn erbyn grŵp o ddiffoddwyr tân a grŵp o farnwyr ar sail oedran. Cyfeirir at yr achosion hyn fel McCloud a'u canlyniad fydd bod gan ragor o aelodau o gynlluniau pensiwn lefelau uwch o 'ddiogelwch trosiannol' yn dilyn y newid o bensiynau cyflog terfynol i bensiynau cyfartaledd gyrfa ar 1 Ebrill 2015. Diwygiwyd Nodyn 40 – cynlluniau pensiwn buddion diffiniedig i adlewyrchu effaith McCloud gan nad oedd hynny wedi'i gynnwys yn y cyfrifiad actiwaraid gwreiddiol o ffigyrau a datgeliadau cynlluniau pensiwn. Mae wedi arwain at gynnydd yng nghost gwasanaeth a roddwyd, rhwymedigaeth cynlluniau pensiwn a diffyg yn y gronfa pensiwn o £528,000.
- Ailddosbarthwyd Nodyn 17 – dyledwyr hirdymor a byrdymor a Nodyn 20 – credydwyr hirdymor a byrdymor a darpariaethau yn unol â gofynion datgelu newydd CIPFA ar gyfer 2018-19. Nid oedd effaith ar y cyfan ar gyfansymiau balansau dyledwyr a chredydwyr a ddatgelwyd yn nodiadau 17 a 20.
- Rydym wedi gwneud sawl mân-ddiwygiad i'r datganiadau ariannol. Nid ydym wedi rhestru'r eitemau hyn gan eu bod naill ai'n ymwneud â diwygiadau i wybodaeth a ddatgelwyd, dileu datgeliadau diangen, naratif ychwanegol i egluro polisïau cyfrifyddu, symiau cymharol, newidiadau i naratif neu mae'r symiau dan sylw wedi'u dosbarthu'n rhai bach iawn.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru